# *CYNGOR TREF PORTHMADOG*

**COFNODION PWYLLGOR EIDDO A DATBLYGU**
**nos Fawrth Ebrill 25ain 2023**

**Presennol :-** Cynghorwyr :- Aled Griffith, Gwilym Jones, Llywelyn Rhys ( Cadeirydd), Dr Melfyn Edwards, Michael Roberts
Marian Roberts ( Clerc)

**1. Ymddiheuriadau**
**Cynghorwyr:-** Connor Westwood, Llinos Murphy

**2. Llwybrau**
- Mynegwyd bodlonrwydd fod Llwybrau Coed Borth y Gest wedi cael eu tacluso a bod trigolion lleol yn canmol y gwelliannau. Cytunwyd i yrru llythyr o ddiolch i'r Adran Llwybrau am eu gwaith yn ôl cynnig Cyng Dr Melfyn Edwards, Cyng Llywelyn Rhys yn eilio.
- Holwyd am y gweithgarwch diweddar yn llwybr Uwchllyn, Morfa Bychan a'r stanc melyn ar y llwybr. Penderfynwyd y byddai'r Clerc yn cerdded y llwybr i gasglu gwybodaeth ar gyfer ei roi ar raglen cyfarfod 9.5.23 cyn gwneud ymholiadau pellach.

**3. Cae Bodawen**
- Adroddodd y Clerc fod John Hywyn Williams Cydlynydd Partneriaeth Natur Lleol, Cyngor Gwynedd, am osod arwyddion yma i egluro'r newid yn y drefn o dorri'r gwair a hefyd arwyddbyst ar 3 coedlan Ysgol y Gorlan, Ysgol Borth y Gest ac Ysgol Eifion Wyn.
- Penderfynwyd y byddai'r Clerc yn Holi Mr Williams os byddai lleihau'r torri gwair yn annog mwy o dyfiant o'r blodau gwyllt sydd wedi cael eu plannu yno.
- Yn dilyn derbyn ebost gan National Grid i drefnu cyfarfod ar Gae Bodawen am 10.30 ar Fai 11 penderfynwyd y byddai'r Clerc yn cadarnhau gyda hwy ac yn awgrymu cynnal y cyfarfod yn swyddfa Scottish Power wrth ymyl os na fydd y tywydd yn caniatau i gyfarfod ar y cae. Cyhoeddir hyn yng nghyfarfod 9.5.23 er mwyn annog mwy o'r Cynghorwyr i fynychu'r cyfarfod.
- Nodwyd pryder am gyflwr y baneri ar gylchdro Bodawen a'u bod wedi dirywio yn arw o fewn blwyddyn. Cytunwyd i'r Clerc holi am brisiau gan gwmni Cadwyn i'w darparu gan fod canmoliaeth i safon eu baneri nhw.

**4. Bryn Coffa**
Dim i'w adrodd.

**5. Cae Pawb - Penderfynu ar ddyddiad Archwiliad Cae Pawb mis Mai**
Penderfynwyd ar fore Sadwrn Mai 13 am 10.30. Bydd y Clerc yn cyhoeddi ar dudalen Facebook Cae Pawb ac yn cyhoeddi poster i'w osod yng Nghae Pawb.

**6. Llochesi Bws**
Dim i'w adrodd - dim ond i gadw llygad ar eu cyflwr yn gyffredinol.

**7. Cerflun Mr. Madocks**
Cytunodd Cyng Dr Melfyn Edwards i gael rhif cyswllt Stephen Faherty er mwyn i'r Clerc fedru cysylltu ag o ynglyn â gwelliannau posibl i'r cerflun.

**8. Syniadau i ddatblygu'r dref**

- **Cyng Gwilym Jones** :- **Cynnig ail-ystyried comisiwn Ffion Gwyn ( 2 fwrdd gwybodaeth yn lle 4) un yn y Garth a'r llall wrth gerflun Madocks.**

**Penderfynwyd :-** gweithredu ar y cynnig a chwilio am le addas i osod bwrdd gwybodaeth yn ardal y Garth.

- **Cyng Aled Griffith :- Cynnig cytuno i ddefnyddio'r cynllun cylchdaith Ardal Porthmadog a chael pris i osod byrddau alwminiwm ar bolion mewn 11 o leoliadau o amgylch y gylchdaith**:

1x Borth y Gest
1x Dechrau llwybr Moel y Gest (gyferbyn â garej Madog)
1x Dechrau llwybr wrth Dŷ Gelert
2x Dechrau llwybr Lon Haearn Bach (ochr Pensyflog a ffordd Dulyn, Tremadog)
2x Mynedfa Coed Nyrseri (Stryd y Llan, Tremadog a man parcio ar y ffordd osgoi)
1x Dechrau'r ffordd i fferm Penmount
1x Wrth orsaf Penmount
1x Dechrau Cob Crwn (wrth ymyl Melin yr Wyddfa)
1x Dechrau llwybr y Cob a llwybr tu ôl i Premier Inn.

**Penderfynwyd :-** gweithredu ar y cynnig a cytunodd Cyng Aled Griffith i ymchwilio ymhellach i'r cynllun.

Marian Roberts
26.4.23